Annwyl Gwsmeriaid

**Swyddfa Bost® Glyncorrwg**
**1 Heol y Bont, Glyncorrwg, Port Talbot, SA13 3BA**

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

Rwy'n ysgrifennu atoch i gadarnhau y byddwn yn bwrw ymlaen â'n cynllun i symud y gangen Swyddfa'r Post uchod i Siop Ddisgownt y Pentref, 28 Stryd Dunraven, Glyncorrwg, Port Talbot, SA13 3AD, lle caiff ei rhedeg fel un o ganghennau lleol ffasiwn newydd Swyddfa'r Post.

Cawsom un ymateb unigol gan gynrychiolydd lleol yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Roedd yr ymateb yn croesawu'r symud i'r lleoliad newydd am ei fod mewn man mwy canolog ac roedd hefyd yn croesawu'r oriau agor estynedig. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch y mynediad i'r adeilad newydd. Bu'r adborth hwn o gymorth imi ddeall barn y cwsmeriaid a gwneud yn siŵr fod yr holl wybodaeth o'r fath yn cael ei hystyried wrth inni wneud ein cynlluniau terfynol.

Rydym yn sylweddoli fod y Swyddfa Bost yn chwarae rhan bwysig ym mywydau cwsmeriaid, yn enwedig y bobl hŷn a phobl anabl, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. I fynd i mewn i'r adeilad newydd mae yna stepen isel a drws llydan. Y tu mewn, bydd y gangen newydd yn bodloni gofynion Swyddfa'r Post, gan wneud yn siŵr fod digon o le i'r Swyddfa Bost leol ffasiwn-newydd weithredu ochr yn ochr â'r gwasanaeth manwerth. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r gweithredydd newydd wrth ddylunio tu mewn yr adeilad. Bydd peth celfi, ffitiadau a nwyddau'n cael eu symud neu'n cael eu cymryd oddi yno i wneud yn siŵr fod digon o le i ddod i mewn i'r adeilad. Bydd y fynedfa, llwybrau a'r lle bydd cwsmeriaid yn aros eu tro yn cael eu cadw heb rwystrau a bydd digon o le i gwsmeriaid symud o gwmpas y siop a chyrchu gwasanaethau'r Swyddfa Bost heb anhawster.

Bydd y Swyddfa Bost leol newydd yn cael ei rhedeg o dil cynllun-agored wrth gownter y siop. Bydd hyn yn darparu amrediad eang o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ochr yn ochr â thrafodion y siop. Mae trafodion Swyddfa'r Post i fod yn gyflym ac effeithlon fel bod cwsmeriaid yn cael gwasanaeth effeithlon a chyflym heb orfod aros eu tro am yn hir. Mae hyn yn golygu na fydd nifer fach o drafodion sy'n cymryd mwy o amser, sy'n gymhleth neu sy'n golygu defnyddio papur, ar gael yn y gangen newydd. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau y bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd yn y gangen newydd. Bydd y nifer fach iawn o wasanaethau na fydd ar gael bellach ar gael yn Swyddfa Bost Maesteg, lle mae holl wasanaethau Swyddfa'r Post ar gael.

Bydd y newid yn golygu hefyd y bydd trigolion lleol yn elwa ar oriau agor hirach, gan gynnwys prynhawniau Mercher a Sadwrn, dydd Sul ac oriau agor estynedig drwy gydol yr wythnos. Felly, bydd gan gwsmeriaid fwy o hyblygrwydd i ddefnyddio ein gwasanaethau yn ystod oriau agor y siop, saith diwrnod yr wythnos – a hynny ar amserau mwy cyfleus. Mae manylion llawn am y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn, ynghyd â rhestr o'r cynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael.

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'n cynllun gwreiddiol, yr adborth a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r effaith ar drigolion lleol a'r gymuned ehangach. Rwy'n ffyddiog fod y gangen newydd mewn lleoliad cyfleus ac y bydd y ffordd newydd hon o gynnig gwasanaethau Swyddfa'r Post yn dal i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac, ar yr un pryd, yn help i roi dyfodol cynaliadwy hirdymor i'r gwasanaeth Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Mae manylion llawn am y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn, ynghyd â rhestr o'r cynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 17:30 ar Llun 24 Medi 2018, a bydd y gangen newydd yn agor yn Siop Ddisgownt y Pentref, 28 Stryd Dunraven am 13:00 ddydd Mawrth 25 Medi 2018.  Os bydd rhaid newid y dyddiadau hyn, am resymau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, bydd posteri'n cael eu gosod yn y gangen er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.  Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw Swyddfa Bost arall sy'n gyfleus.  Isod, fe welwch fanylion am gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Maesteg, Talbot Street, Maesteg, CF34 9BL

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd yng Nghanolfan Ymgynghori Swyddfa'r Post yn postofficeviews.co.uk.

Mae'r newid hwn i rwydwaith Swyddfa'r Post yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer newidiadau i'r rhwydwaith, yn ôl yr hyn a gytunwyd â chorff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.  Mae copi llawn o'r Cod Ymarfer ar gael ar ein gwefan yn www.postofficeviews.co.uk,  neu gallwch gael copi wrth gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch ichi am ystyried ein cynllun.

Yr eiddoch yn gywir

*Annete Thomas*

**Annete Thomas**
**Rheolwraig Newidiadau i'r Rhwydwaith Ardal**

Sut i gysylltu â ni:


postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

FREEPOST Your Comments

<table>
<tr><th colspan="2">Dalen wybodaeth Swyddfa Bost Glyncorrwg</th></tr>
<tr><td>Cyfeiriad</td><td>Siop Ddisgownt y Pentref<br>28 Stryd Dunraven<br>Glyncorrwg<br>Port Talbot<br>SA13 3AD</td></tr>
<tr><td>Oriau Agor</td><td><table>
<tr><td>Llun</td><td>09:00 – 13:00<br>14:00 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Mawrth</td><td>09:00 – 13:00<br>14:00 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Mercher</td><td>09:00 – 13:00<br>14:00 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Iau</td><td>09:00 – 13:00<br>14:00 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Gwener</td><td>09:00 – 13:00<br>14:00 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Sadwrn</td><td>09:00 – 13:00<br>14:00 – 20:00</td></tr>
<tr><td>Sul</td><td>10:00 – 13:00</td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>Pellter</td><td>120 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur.</td></tr>
<tr><td>Cynhyrchion a Gwasanaethau</td><td>Bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd.</td></tr>
<tr><td>Hygyrchedd a gwaith hygyrchedd</td><td>Mynediad a chyfleusterau<br>Mae gan yr adeilad newydd ddrws llydan a stepen wrth y fynedfa.<br><br>Parcio<br>Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd.</td></tr>
<tr><td>Y Siop</td><td>Siop Gyfleustra</td></tr>
<tr><td>Dyddiad yr Adleoliad</td><td>am 13:00 ddydd Mawrth 25 Medi 2018</td></tr>
</table>

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu Braille, byddwch cystal â chysylltu â’r Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 neu Ffôn Testun 03457 22 33 55.**

| **Swyddfa'r Post® Glyncorrwg gwasanaethau ar gael** | |
|---|---|
| **Bydd eich Bostfeistr neu'n Llinell Cymorth Cwsmeriaid ar 03452 66 01 15 yn hapus i gynnig cymorth gydag unrhyw ymholiadau yn ymwneud ag argaeledd cynnyrch neu i'ch cyflenwi â manylion am uchafswm alldaliadau ellid eu codi. Gall cwsmeriaid hefyd siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk** | |
| | **Cangen newydd** |
| **Post** | |
| Post Dosbarth Cyntaf & Ail Ddosbarth | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stamp (Dosbarth 1af 6 & 12 yn unig, 2il Ddosbarth 12 yn unig) | ✓ |
| Stampiau arbennig (argraffiad Nadolig yn unig) & labelau postio | ✓ |
| Royal Mail Signed For™ | ✓ |
| Royal Mail Special Delivery™ | ✓ |
| Dychweliadau Siopa o Gartref | ✓ |
| Parseli mewndirol bach a chymedrol | ✓ |
| Parseli Cyflym a Chytundeb | ✓ |
| Post Y Lluoedd Prydeinig (BFPO) | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post rhyngwladol (yn.cynnwys 'Signed For'™ & 'Airsure'™) | ✓ |
| Pecynnau Rhyngwladol hyd at 2kg & phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ |
| Parseli rhyngwladol Parcelforce Worldwide | ✓ |
| Eitemau i'r deillion (mewndirol & rhyngwladol) | ✓ |
| Gwasanaeth Ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ |
| Gwasanaeth Casglu Eitemau | ✓ |
| **Gwasanaethau bancio & Throsglwyddo Arian** | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ |
| Bancio personol a busnes: codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw). | ✓ |
| Archebion Post | ✓ |
| 'Moneygram'™ | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ |
| **Taliadau Bil** | |
| Taliadau bil awtomatig (cerdyn neu fargod) | ✓ |
| Ail-siarsio allweddi | ✓ |
| **Gyrru** | |
| Treth modur | ✓ |
| **Trwyddedi** | |
| Trwyddedi wialen bysgota | ✓ |
| **Teithio** | |
| Arian teithio wedi'i archebu 'mlaen llaw | ✓ |
| Cyfeireb Yswiriant Teithio | ✓ |
| | |
| Ail-siarsio ffôn symudol& thalebau E | ✓ |
| **Taliad â siec** | ✓ |

Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa Bost **Maesteg**, Talbot Street, Maesteg, CF34 9BL

Amseroedd agor:
Llun – Gwe 09:00 – 17:30
Sad 09:00 – 14:00